




STOPIO yn golygu STOPIO!

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn atgoffa gyrwyr am eu cyfrifoldebau wrth ddod ar draws Hebryngwyr Croesfannau Ysgol.

Mae Hebryngwyr Croesfannau Ysgol yn rhan annatod o'r gymuned mewn llawer rhan o Gymru; yn aml maen nhw wedi cynorthwyo plant, a hyd yn oed wyrion ac wyresau, y rhai oedd yn yr un ysgol flynyddoedd lawer yn ôl. Maen nhw'n wyneb cyfeillgar sydd bob amser yn ein cyfarch wrth gyrraedd yr ysgol ac yn ffarwelio â ni wrth inni droi am adre.

Maen nhw'n aelodau ymroddgar a gwerthfawr iawn o gymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach sy'n troi allan, er gwaethaf y tywydd, i'n cadw ni i gyd yn ddiogel wrth groesi'r ffordd.

Diolch byth, mae'r mwyafrif o fodurwyr yn parchu'r gyfraith ac yn gwrtais, gan stopio pan fo'r arwydd yn dweud wrthyn nhw. Ond mae'n hanfodol bod gyrwyr a reidwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith i wella diogelwch ar y ffyrdd o amgylch ysgolion.

Mae'n hanfodol bod modurwyr yn deall bod y gyfraith yn dweud bod rhaid ufuddhau i'r arwyddion sy'n cael eu rhoi gan Hebryngwr Croesfan Ysgol. Cyn gynted ag y bydd yr Hebryngwr yn codi ei arwydd, hyd yn oed os nad yw wedi camu i'r ffordd, rhaid i fodurwyr fod yn barod i stopio.

Unwaith y bydd Hebryngwr ar y gerbyttffordd ac yn dangos yr arwydd ar i fyny, mae'n RHAID i'r traffig stopio a pheidio â mynd ymlaen nes bod y cerddwyr wedi gorffen croesi'r ffordd a bod yr Hebryngwr wedi dychwelyd i'r palmant.

Yn anffodus, mae Hebryngwyr ledled y wlad wedi bod yn wynebu sarhad ar lafar, bygythiadau a pherygl am fod cerbydau'n symud, a hynny am wneud eu gwaith. Mae achosion o ymddygiad bygythiol neu beryglus nid yn unig yn effeithio ar Hebryngwyr, ond mae pob defnyddiwr arall ar y ffordd yn wynebu risg ddiangen.

Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru: "Dylai pob plentyn a'i warcheidwad yng Nghymru fod yn ddiogel wrth groesi'r ffordd i'r ysgol."


YN Y RHIFYN HWN:

STOPIO yn golygu STOPIO
Defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed
Pump angheuol
Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid
E-feiciau ac e-sgwteri
Flwyddyn yn ddiweddarach: 20mya
Beicwyr modur



Gofalu am ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed wrth i'r clociau newid

Mae'r hydref yn aml yn dod â thywydd gwaeth a llai o welededd, gan gynyddu'r risg o wrthdrawiadau, yn enwedig rhai sy'n cynnwys defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed fel plant, pobl hŷn, cerddwyr, beicwyr a beicwyr modur.



Galwodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, am wyladwriaeth ychwanegol wrth i'r nosweithiau tywyll ddechrau, "Mae tywyllwch yn creu mwy o her i ddefnyddwyr y ffyrdd. Dylai modurwyr yrru'n ystyriol a lleihau eu cyflymder i ateb amodau'r traffig a'r tywydd. Dylai gyrwyr sicrhau hefyd fod eu cerbyd yn cael ei baratoi a'i gynnal yn dda."

I sicrhau'r gwelededd gorau posibl yn amgylchedd y ffordd, mae angen i oleuadau cerbydau fod mewn cyflwr da, yn lân ac wedi'u haddasu'n gywir. Dylai sgriniau blaen a ffenestri fod yn rhydd rhag anwedd, yn gwbl glir ac yn lân y tu mewn a'r tu allan, a dylai'r sychwyr fod yn gweithio'n gywir.

Gall diffyg sylw neu welededd gwael o safbwynt y gyrrwr arwain at amserau ymateb arafach, sy'n cynyddu'r risg o wrthdrawiad.

Ychwanegodd Teresa Ciano, "Dylai gyrwyr osgoi gadael i bethau yn y cerbyd dynnu eu sylw, ac arafu er mwyn gallu dod â'r cerbyd i stop o fewn y pellter maen nhw'n gallu ei weld yn glir. Ychydig funudau yn unig y bydd gwiriadau rheolaidd syml ar gerbyd yn eu cymryd ond gall y rhain helpu i sicrhau nad fydd golwg y gyrrwr o beryglon posibl yn cael ei beryglu."

Gall defnyddwyr eraill y ffordd gyfrannu at leihau nifer yr anafiadau drwy chwarae eu rhan hefyd. Yn achos beicwyr, mae defnyddio golau blaen gwyn, golau cefn coch ac adlewyrchydd cefn coch yn ofynnol yn y nos o dan y gyfraith. O ran cerddwyr mae llawer o gotiau, bagiau ac esgidiau yn cynnwys deunyddiau adlewyrchol sy'n eu gwneud yn fwy gweladwy yng ngoleuadau cerbydau.

Mae dewis llwybrau sydd wedi'u goleuo'n dda â goleuadau stryd a chroesi mewn mannau croesi dynodedig yn arfer da i ddefnyddwyr ffyrdd o bob oed. Gall bod yn weladwy a gofalu am bobl eraill swnio'n syml, ond mae peidio â gwneud y pethau hyn yn gallu arwain at anafiadau ar y ffyrdd a allai gael eu hosgoi.

Swyddogion Heddlu De Cymru yn teithio ar fysiau cyhoeddus i ddal modurwyr sy'n cyflawni troseddau traffig y 'pump angheuol'

Ymunodd Uned Plismona Ffyrdd Heddlu De Cymru â First Cymru ar gyfer Ymgyrch Routemaster, sy'n ceisio newid ymddygiad gyrwyr a chadw modurwyr yn ddiogel.

Roedd swyddogion ar fws yn recordio modurwyr a oedd yn pasio er mwyn ceisio dal y rhai a oedd yn cyflawni troseddau traffig y 'pump angheuol', sy'n cynnwys defnyddio eu ffôn symudol, peidio â gwisgo gwregys diogelwch, gyrru'n ddiofal, goryrru neu yrru dan ddylanwad alcohol/cyffuriau.

Dywedodd PC Nick Thomas, Uned Diogelwch ar y Ffyrdd a Cherbydau Masnachol a arweiniodd yr ymgyrch: "Mae modurwyr bedair gwaith yn fwy tebygol o gael gwrthdrawiad os byddant yn defnyddio eu ffôn wrth y llwy ac mae Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i dargedu ymddygiad gyrru peryglus er mwyn cadw ein ffyrdd mor ddiogel â phosibl.



"Mae Ymgyrch Routemaster yn fenter newydd lle mae gennym swyddogion yr heddlu yn casglu tystiolaeth am y pum trosedd angheuol. Cawsom ddiwrnod llwyddiannus yn gweithio gyda chwmni bysiau First Cymru, sy'n rhannu ein hangerdd am ddiogelwch ar y ffyrdd, er mwyn siarad â gyrwyr o gwmpas Abertawe a'u haddysgu. Ar ôl i'r ymgyrch gael ei threialu'n llwyddiannus, rydym yn bwriadu cyflwyno'r ymgyrch i ardaloedd eraill ledled yr heddlu."

Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid

Mae golwg dda yn hanfodol wrth ichi ddefnyddio'r ffordd, waeth beth fo'ch oedran. Rhaid i yrwyr a beicwyr modur allu darllen plât cofrestru cerbyd o bellter o 20 metr (neu 20.5 metr os cafodd y cerbyd ei gofrestru cyn Medi 2001) gan wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd os oes eu hangen.



Os ydych yn ei chael yn anodd darllen arwyddion ffordd, yn enwedig y rhai â thestun arnynt, gallai hynny fod yn arwydd bod eich golwg wedi dirywio ac y gall fod angen lensys i gywiro'ch golwg. Os ydych yn ei chael yn anos gweld yn glir yn y tywyllwch, fe allai hynny hefyd olygu bod angen ichi wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd.

Er bod golwg yn aml yn dirywio wrth inni fynd yn hŷn, gall anhwylderau'r llygaid ddatblygu unrhyw bryd. Mae glawcoma a philenni ar y llygaid yn adnabyddus ond o'u gadael heb eu trin, gall clefydau eraill sy'n gysylltiedig ag

oedran effeithio ar eich gallu i ddefnyddio'r ffordd yn ddiogel hefyd.

Yn ystod prawf llygaid, gallai anhwylderau iechyd eraill sy'n ddjarwybod ichi hyd yn hyn, megis diabetes neu bwysedd gwaed uchel, gael eu canfod hefyd - a dyna reswm arall dros gael profion yn rheolaidd.

Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, "Rydyn ni'n argymhell cael prawf ar eich llygaid bob dwy flynedd, neu'n amlach os bydd eich optegydd yn awgrymu hynny.

"Gall hyn nid yn unig helpu i sicrhau eich bod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer gyrru neu reidio, ond canfod anhwylderau'n gynnar hefyd cyn iddyn nhw ddatblygu. Dylech wybod eich bod yn gallu wynebu dirwy o hyd at £1000 os byddwch yn gyrru a'ch golwg o dan y safon gyfreithiol sy'n ofynnol.

"Bydd Diogelwch Ffyrdd Cymru'n cefnogi Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid drwy eu gwefan a'u sianeli yn y cyfryngau cymdeithasol, gan atgoffa pobl am bwysigrwydd profion llygaid rheolaidd a'r anhwylderau cyffredin a allai gyfaddawdu diogelwch holl ddefnyddwyr y ffyrdd."

Mynnwch wybod y gyfraith ar e-feiciau ac e-sgwteri

Yn y cyfnod cyn gwyliau'r haf, rhannodd Diogelwch Ffyrdd Cymru wybodaeth i dynnu sylw at y gyfraith ynglŷn ag e-feiciau ac e-sgwteri gydag ysgolion uwchradd, colegau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Efallai bod rhai pobl wedi prynu e-feic neu e-sgwter yn ddigon diniwed, heb wybod y gallen nhw fod yn torri'r gyfraith wrth eu reidio gan greu'r risg y bydd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hanafu os byddan nhw'n rhan o wrthdrawiad.

Datblygodd partneriaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru daflen wybodaeth ddwyieithog a ffilmiau addysgol byr, gyda chymorth y tîm diogelwch ffyrdd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ffilmiau ar gael i'w gweld ar sianel YouTube Diogelwch Ffyrdd Cymru yn Gymraeg a Saesneg ac mae modd lawrlwytho taflen wybodaeth ddwyieithog yma.

Hoffem weld cynifer o bobl â phosibl yn teithio'n egnïol, yn enwedig gan fod y manteision o ran iechyd yn drech o lawer na theithio mewn cerbyd, ond rydyn ni am i bawb sicrhau eu bod yn cadw'n ddiogel ac yn gyfreithlon.



Flwyddyn yn ddiweddarach: Ysgrifennydd Trafnidiaeth yn nodi'r camau nesaf ar 20mya

Bron i flwyddyn ers cyflwyno'r terfyn cyflymder diodyn o 20mya yng Nghymru, mae Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, wedi nodi'r camau nesaf.



Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet gynllun tri cham ar 20mya, gan gynnwys Rhaglen Wrando Genedlaethol dros yr haf, a oedd yn annog pobl i gymryd rhan a dweud eu dweud. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar gyfer awdurdodau priffyrdd ym mis Gorffennaf.

Mae dau gam cyntaf y cynllun wedi'u cwblhau. Mae awdurdodau lleol bellach wrthi'n adolygu adborth gan bobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru i sicrhau bod 20mya wedi'i dargedu ar y ffyrdd cywir.

Mae nifer o gynghorau bellach yn dechrau amlinellu cam olaf y cynllun drwy gyhoeddi gwybodaeth ar faint o adborth a gafwyd a'r camau nesaf.

Unwaith y bydd eu hadolygiad wedi'i gwblhau, os bydd awdurdodau lleol yn penderfynu newid y terfyn cyflymder ar ffordd unigol, bydd proses statudol Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) yn dechrau - gan roi cyfle pellach i ymgysylltu â phobl lleol.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn arwydd calonogol bod pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir, gyda chwymp yn nifer y gwrthdrawiadau a gostyngiad mewn cyflymder.

Dywedodd Ken Skates:

"Roeddwn i eisiau rhoi llais i bobl ar 20mya yn eu hardal ei hunain, ac rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi rhannu adborth gyda'u cyngor lleol dros y misoedd diwethaf.

"Rwyf am adeiladu o'r consensws eang bod 20mya yn iawn lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae - mae hyn yn ymwneud â sicrhau'r cyflymderau cywir ar y ffyrdd cywir.

"Hoffwn ddiolch i'n partneriaid llywodraeth leol. Rwy'n falch bod awdurdodau lleol yn dechrau symud i gamau olaf y cynllun.

"Bydd y gwaith hwn yn datblygu ar gyflymder gwahanol mewn gwahanol leoedd, yn ôl amgylchiadau lleol a faint o adborth a gafwyd".

Ychwanegodd Cadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Cynghorydd Andrew Morgan:

"Mae awdurdodau lleol yn croesawu'r cyllid a'r cymorth pellach a gynigir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau'r cyflymderau cywir ar y ffyrdd cywir ond maen nhw'n wynebu penderfyniadau heriol.

"Bydd angen i ni gydbwysu'n ofalus y manteision a'r anfantaision o godi cyflymder. Bydd diogelwch pob defnyddiwr ffordd wrth wraidd y penderfyniadau a wnawn".



Mae lleihau nifer y beicwyr modur sy'n cael eu hanafu neu eu lladd yng Nghymru yn dal yn flaenoriaeth

Mae Cymru â'i golygfeydd godidog a'i rhwydwaith ffyrdd amrywiol yn denu beicwyr modur o bell ac agos.



Er bod ffyrdd Cymru ymysg y rhai mwyaf diogel yn y byd, mae beiciwr modur 58 gwaith yn fwy tebygol o gael ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol mewn gwrthdrawiad na pherson sy'n teithio mewn car neu dacsï. Felly, mae lleihau nifer y beicwyr modur sy'n cael eu hanafu neu eu lladd yng Nghymru yn dal yn flaenoriaeth.

Cafodd 536 o feicwyr modur eu hanafu yn ôl cofnodion yr heddlu yn 2023, gyda 268 o'r rheini yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg anghymesur yma, Diogelwch Ffyrdd Cymru yn gofyn i feicwyr modur reidio'n ofalus tu hwnt ac o fewn y gyfraith bob amser. Gall gyrwyr chwarae eu rhan drwy gymryd mwy o bwyll wrth

gadw llygaid allan am yrrwyr modur, yn arbennig wrth adael cyffyrdd, newid lôn neu wrth agor eu drysau - efallai na fydd beic modur mor weladwy â cherbydau mwy o faint a gallant fod yn y lle rydych yn bwriadu symud iddo.

Dylech edrych yn ofalus yn eich man dall bob amser ac edrych ddwywaith am feiciau modur.

Er bod y mwyafrif llethol o feicwyr modur yn dangos safon da wrth reidio, mae lleiafrif bach yn dewis defnyddio'r ffyrdd mewn ffordd anghyfrifol, gan beri risg diangen iddyn nhw eu hunain ac i ddefnyddwyr eraill. Bydd heddluoedd ledled Cymru yn targedu'r unigolion hyn, gan roi neges glir na chaiff ymddygiad reidio gwael na gwrthgymdeithasol eu goddef.

Gall hyd yn oed y beiciwr modur fwyaf profiadol gael budd o gymryd rhan mewn hyfforddiant ar ôl eu prawf neu gael asesiad o'u reidio. Rydym felly yn annog beicwyr modur i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael ledled Cymru - nifer ohonynt wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru - er mwyn gwella eu sgiliau reidio a'u gwybodaeth.

Mae paratoi cyn pob taith yn allweddol i'ch diogelwch. Archwiliwch eich offer a'ch beic yn ofalus er mwyn gwneud yn siŵr bod popeth yn gweithio'n iawn, gan dalu sylw arbennig i gyflwr eich teiars, breciau a goleuadau - gallai achub eich bywyd.

Mae hefyd yn bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr eich bod wedi paratoi'n drylwyr; peidiwch byth â reidio pan fyddwch yn ddig, neu dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

Mae partneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru yn rhannu'r un nod - bod trigolion ac ymwelwyr a ddaw i Gymru yn defnyddio'r ffyrdd yn gyfrifol ac yn cyrraedd adref yn ddiogel.

Am fwy o wybodaeth ewch i walesbybike.com



Gweler Diogelwch Ffyrdd Cymru ar: Facebook [@roadsafetywales](https://www.facebook.com/roadsafetywales)
Twitter [@roadsafetywales](https://twitter.com/roadsafetywales)

